



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 10FED GORFFENAF, 2018

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

LowriHafEvans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 3 Gorffennaf 2018)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams

Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Charles Wyn Jones

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2018/19.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I eithol Is-Gadeirydd ar gyfer 2018/19.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I ddatgan unrhyw fuddiant personol

5. MATERION BRYD

I nodi unrhyw faterion bryd sydd wedi codi

6. COFNODION

5 - 8

Y Cadeirydd i gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 24 Ebrill 2018.

7. ADRODDIAD AELOD CABINET Y GYMRAEG

Diweddariad gan yr Aelod Cabinet

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH 9 - 27

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Aelodau

9. YMGYNGHROIAD CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG

28 - 40

Rhoi diweddariad i'r Aelodau am y broses o greu'r Cynllun Hybu ac adrodd ar ganfyddiadau'r ymgynghori cyhoeddus.

10. CYMRAEG YN Y GWEITHLE

Diweddariad ar dynodiadau iaith a Chefnogaeth Dysgu a Datblygu

11. MWY NA GEIRIAU

41 - 46

Adrodd ar y modd y mae'r Adran a'r Cyngor yn ymateb i ofynion 'Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019 ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

12. CWYNION IAITH

I ddebyn diweddariad gan Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg

PWYLLGOR IAITH, 24.04.18

Yn bresennol: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Evans, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Alan Jones Evans, John P. Roberts, Elwyn Edwards, Kevin Morris Jones, Elfed Wyn Williams, Eirwyn Williams, Elwyn Jones, Charles Wyn Jones.

Cefnogaeth Gorfforaethol: Gwenllian Mair Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), Eiliw Alwyn (Rheolwr Prosiect Gwasanaethau Corfforaethol), Nia Hâf Davies (Rheolwr Cynllunio), a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Eric M. Jones.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 27 Chwefror, 2018 fel rhai cywir.

5. YMGYNGHORIAD Y STRATEGAETH IAITH

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Iaith, 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023', gan y Rheolwr Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg. Nodwyd bod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y strategaeth wedi cychwyn ac y byddai'n dod i ben ar y 5ed o Fehefin 2018. Dywedwyd y bydd croeso i unrhyw unigolyn neu sefydliadau gynnig unrhyw sylwadau, gwelliannau neu awgrymiadau er mwyn eu hystyried. Bydd y strategaeth derfynol yn mynd ger bron y Cabinet a'r Cyngor Llawn ym mis Hydref 2018, ynghyd â chynllun gweithredu a fydd yn cael ei lunio yn yr haf.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebwyd i nifer o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:

- Gwallau iaith a cham dreiglo yn y strategaeth.
- Camau gweithredol yn esbonio beth sy'n mynd i ddigwydd, pwy sy'n gyfrifol, a sut mae mesur cynnydd ddim wedi eu cynnwys yn y strategaeth.
- Penderfyniadau'r Cyngor sy'n gwrthweithio yn erbyn nifer o'r amcanion sydd wedi eu cynnwys yn strategaeth e.e. cau'r clybiau ieuencid sy'n hybu'r defnydd o Gymraeg ymhlith phobl ifanc.

Tywyswyd yr aelodau drwy gynnwys y cwestiynau ymgynghoriad ar gyfer y Strategaeth iaith. Yn ystod y drafodaeth ddilydol ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:

Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau

- Y 'Seisnigrwydd slei' sy'n deillio o'r dechnoleg/teclynnau electronig sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion - oes modd mynd i'r afael a hyn?
- Cyngor Gwynedd yw un o'r unig sefydliadau yng Nghymru sy'n flaengar i gyfieithu 'apps', darparu technoleg yn y Gymraeg, a darparu cyfarfodydd sy'n ddwyieithog – pam nad yw'r llywodraeth yn cyfrannu arian er mwyn cefnogi'r gwaith arbennig yma?
- A yw'n deg annog pobl ifanc 'i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau' pan mae'r Cyngor yn tynnu'r cyfleusterau a'r arian i wneud hyn oddi wrthynt?

Blaenoriaeth 1: Iaith y Cartref

- Trosglwyddiad ieithyddol yn wan ymhlith teuluoedd rhieni sengl - ydi'n bosib cael strategaeth benodol i fynd i'r afael a'r mater yma?
- Trosglwyddiad ieithyddol yn wan mewn teuluoedd ble mae'r tad yn unig sy'n siarad Cymraeg. Mae angen cryfhau'r neges bod tadau gyda rôl bwysig i sicrhau bod eu plant yn tyfu fyny yn ddwyieithog.
- Awgrym i sefydlu canolfannau trochi newydd mewn ardaloedd gyda chanran uchel o blant sy'n hwyr yn dysgu'r Gymraeg.
- Oes modd clymu gweledigaeth yr iaith gartref gyda nod y Siarter Iaith?

Blaenoriaeth 2: Iaith Dysgu

- Angen darparu neges glir i ddisgyblion ysgolion uwchradd bod y Gymraeg yn gymhwyster yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat ac yn arwain at lawer mwy o gyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Blaenoriaeth 3: Iaith Gwaith a Gwasanaeth

- Mae'r gweithle yn le pwerus i hybu'r defnydd o Gymraeg – mae'n bwysig ehangu'r gweithleoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn llwyr.
- Oes modd dylanwadu ar fanciau ac archfarchnadoedd a chwmnïau ynni mawrion i wneud mwy o ddewis iaith.
- Mae'n bwysig sicrhau bod y peiriannau hyn yn defnyddio Cymraeg hawdd sy'n cael ei ddefnyddio pob dydd. Yn aml, mae'r cyfieithiad yn rhy drwsogl a chymhleth sydd yn anodd deall, ac mae hyn yn troi pobl yn erbyn yr iaith.

Blaenoriaeth 4: Iaith y Gymuned

- Pwy sy'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau cymdeithasol? Nodwyd ei bod yn mynd yn anodd cynnal momentwm pwyllgorau gwirfoddol.
- Wrth i'r Cymry Cymreig a siaradwyr di-gymraeg ddod at ei gilydd mewn gweithgareddau cymdeithasol mae peryg i iaith y gweithgaredd droi i'r Saesneg. Oes modd rhoi cymorth/cyfarwyddiadau syml i bobl yn y sefyllfaoedd hynny i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio heb gau allan y bobl ddi-gymraeg? Dylid hefyd ystyried canllawiau ar gyfer siarad gyda dysgwyr er mwyn eu cefnogi.
- Angen edrych ar opsiynau ar gyfer gallu cynorthwyo busnesau gyda chostau arwyddion dwyieithog, yn debyg i'r grantiau arferai fod ar gael gan Fwrdd yr Iaith.
- Angen cynnal mwy o sesiynau hyfforddiant 'sut i hybu'r Gymraeg yn y gymuned' ar gyfer cynghorwyr.

Blaenoriaeth 5: Ymchwil a Thechnoleg – Gosod y Seiliau Cywir

- Pwysigrwydd rhoi mynediad i dechnoleg Cymraeg i blant mewn ysgolion cynradd – os ydynt yn arfer i ddefnyddio technoleg Cymraeg o oedran cynnar maent yn fwy tebygol o ddefnyddio technoleg Cymraeg yn ei bywydau pob dydd wedi iddynt adael ysgol.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys y strategaeth a'r cwestiynau ymgynghoriad.

6. ADRODDIAD AR BOLISI ENWAU LLEFYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd papur ymchwil yn amlinellu dyletswyddau a hawliau statudol yr Awdurdod yng nghyswllt bathu, arddel a chofnodi enwau tai, ystadau, strydoedd a lleoedd Gwynedd gan y Rheolwr Prosiect Gwasanaethau Corfforaethol. Nodwyd bod y mater wedi bod yn destun sawl cynwys sydd wedi dod ger bron y Pwyllgor dros y blynyddoedd diwethaf, ac amcan y papur ymchwil yw cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried canlyniadau ac argymhellion yr ymchwil a rhoi eu barn am y camau nesaf priodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebwyd i nifer o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:

- Oes gan y Cyngor yr hawl i fynnu enwau Cymraeg ar stadau newydd?
- Pwy sy'n gyfrifol am enwi tai, datblygiadau a strydoedd sy'n berchen i'r Cyngor?
- Mae nifer o ddatblygiadau newydd yn fwy tebygol o gael enwau Cymraeg, oes modd pwysleisio'r pwynt yma?
- Mae'r mater yn codi pryder, nid yn unig wrth enw tai a strydoedd, ond wrth enwi caeau, creigiau neu ddarnau o'r mynyddoedd. Oes modd edrych am arian i osod plac arnynt yn nodi'r enwau cywir er mwyn hybu'r enwau Cymraeg?

PENDERFYNWYD: Cytuno i barhau i weithio ar sail yr adroddiad er mwyn cael mwy o eglurder, yn enwedig o ran enwi nodweddion daearyddol a sut y gallwn ddylanwadu ar yr enwau a ddefnyddir gan gyrff allanol fel y Post Brenhinol a'r Arolwg Ordnans, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw ddatblygiadau.

7. CYFLWYNIAD NCT/TAN 20 – ADRAN GYNLLUNIO

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor ar Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio A'r Gymraeg (Tan 20) yn dilyn cais gan y Cadeirydd a godwyd pryder bod arweinyddiaeth y Llywodraeth ar y mater yn annelwig a gwan. Nodwyd bod y Tan 20 newydd wedi'i gyhoeddi ers mis Hydref 2017 ac amlygwyd y cysondebau/gwahaniaethau rhwng y fersiwn hwn a'r fersiwn blaenorol, a thrafodwyd y gwendidau'r fersiwn newydd, a'r goblygiadau ar ardaloedd cynllunio Gwynedd a Môn.

Esboniwyd bod ymateb eisoes wedi'i anfon i'r Llywodraeth yn enw grŵp Plaid Cymru ym mis Rhagfyr i fynegi pryder ac anfodlonrwydd bod y Llywodraeth wedi anwybyddu sylwadau Cyngor Gwynedd a Môn, ac wedi methu â;

- chynnig diffiniad o ardaloedd sensitifrwydd ieithyddol;
- rhoi arweiniad ar yr asesiad iaith.

Adroddwyd bod ymateb wedi ei dderbyn gan y Gweinidog Lesley Griffiths AC, oedd yn nodi bod rhyddid i Awdurdodau Lleol ehangu ar y polisi cenedlaethol a datblygu eu canllawiau eu hunain i ymateb i anghenion lleol. Roedd felly yn rhoi y cyfrifoldeb yn nwylo'r Awdurdod Lleol i bennu'r hyn sydd yn briodol ar gyfer eu hardal hwy.

Gofynnwyd i'r aelodau a oeddynt yn dymuno anfon gohebiaeth bellach at y Llywodraeth yn enw'r Pwyllgor Iaith neu a oeddynt yn hapus i weld beth fyddai'n dod o ddatblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol a chael diweddariad ar y mater yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: gadael yr eitem ar yr agenda ar gyfer diweddariad yn y pwyllgor nesaf.

8. CWYNION AC YMCHWILIADAU

Nid oedd unrhyw gwynion nag ymchwiliadau yw nodi.

CADEIRYDD

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	10 GORFFENNAF 2018
TEITL:	Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Aelodau

1 CEFNDIR

1.1 Yn unol a gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy."

1.2 Mae'r Safonau penodol sydd yn ymwneud efo adrodd blynyddol (158, 164 ac 170) yn gofyn yn benodol i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
 - i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
 - ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
 - iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
 - iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth yma, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth o'r camau penodol a gymrir i weithredu'r Safonau.

1.4 Mae'r adroddiad a atodir felly yn Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at Mawrth 2018, ac mae'n cynnwys y wybodaeth benodol y gofynnir amdano yn Safonau 158, 164 ac 170 yn ogystal ag ychydig o wybodaeth ychwanegol.

2. ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i'r aelodau:

- derbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth.

ADRODDIAD AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG 2017/18

CYNGOR GWYNEDD

1. Cefndir

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Ystyriwyd na ddylid gwanhau ymrwymiad presennol y Cyngor tuag at y Gymraeg trwy gyfyngu'r ymrwymiad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig, ac o ganlyniad, datblygwyd Polisi Iaith o'r newydd.

Nod Polisi Iaith y Cyngor – sef ei brif gyfrwng o sicrhau cydymffurfiaeth efo'r Safonau Iaith – yw sicrhau fod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dilynir yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ond gan weithio yn rhagweithiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser.

2. Cydymffurfio efo'r Safonau:

Nodir yn yr adran hon unrhyw Safonau lle mae'r Cyngor wedi gorfod cymryd camau ychwanegol neu roi ystyriaeth arbennig – y tu hwnt i weithredu'r Polisi Iaith – yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cymerir camau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau dros bobl Gwynedd o safbwynt cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, ac hefyd o safbwynt annog a hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r gwasanaethau hynny.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 70 o safonau cyflenwi gwasanaeth, a 6 o safonau atodol cyflenwi gwasanaeth. Yn sgil ymrwymiad hanesyddol Cyngor Gwynedd i'r Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu thu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y gosodwyd hwy ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
7+14+21+ 30+32	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â gofyn i unigolyn a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg neu ddatgan ein bod yn croesawu cyswllt yn Gymraeg	<p>Yn sgil Polisi Iaith ac ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r Gymraeg, y mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi ei normaleiddio ac mae ymwybyddiaeth uchel ymysg y cyhoedd y gallent gyrchu gwasanaethau a gohebu gyda'r Cyngor yn Gymraeg.</p> <p>Yn sgil ymchwiliad i fethiant honedig i gydymffurfio gyda'r Safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, cafwyd trafodaeth ynghylch y Safonau sydd yn ymwneud a "datgan" bod posib i drigolion gysylltu yn Gymraeg, neu "ofyn" am ddewis iaith. Ar hyn o bryd, rydym yn hyderus bod y drefn bresennol yn ddigonol, a bod ymwybyddiaeth dda ymysg y cyhoedd o'r gallu i gyfathrebu a'r Cyngor yn Gymraeg. Byddwn serch hynny yn sicrhau bod y mater yn cael ei drafod yn rheolaidd wrth i ni ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu gyda ni, ac yn adolygu'r sefyllfa wrth ddatblygu trefniadau cyfathrebu newydd, megis hunanwasanaeth ar lein.</p>
35+36	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus	Rhoir y flaenoriaeth bob amser i'r Gymraeg mewn digwyddiadau a gynhelir gan y Cyngor, a bydd amodau'n cael eu gosod mewn cytundebau ariannu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw.

		<p>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio i ddylanwadu ar ddigwyddiadau lle byddant yn ariannu llai na 50% o'r digwyddiad, gan gyfeirio trefnwyr at yr Uned Iaith a Hunaniaith am gefnogaeth bellach er mwyn annog mwy ddefnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau mawrion ar draws y sir.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau dan ymrwymadau a wneir yn Cynllun y Cyngor a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd</p>
<p>52+55+56+</p> <p>57+58+</p> <p>59+60</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â'r wefan, apiau, cyfryngau cymdeithasol, a pheiriannau hunan-wasanaeth</p>	<p>Mae rhai rhwystrau yn parhau efo apiau a gwefannau, ac yn enwedig felly wrth brynu systemau allanol. Rydym yn parhau i ddelio gyda'r achosion hyn yn unigol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaeth a'r dewis gorau.</p> <p>Mae angen gweithio yn barhaus i godi ymwybyddiaeth cwmnïau allanol o'r angen i ddatblygu apiau yn ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach na gorfod eu haddasu i anghenion bellach ymlaen. Ar hyn o bryd mae llawer o amser ac adnodd yn mynd i drafod a negyddu gyda chwmnïau (sydd yn aml yn targedu awdurdodau lleol ledled Cymru) o werth ac angen darparu yn ddwyieithog.</p> <p>Byddwn hefyd yn ystyried datblygu mwy o apiau yn fewnol, er mwyn sicrhau eu bod yn ateb y gofynion yn lleol, yn hytrach na dibynnu ar geisio dylanwadu ar gwmnïau i addasu apiau neu feddalwedd sydd yn bodoli yn barod i fod yn rhai dwyieithog.</p> <p>Mae'r Cyngor ei hun wedi bod yn datblygu mwy o wasanaethau ar-lein yn y flwyddyn ddiwethaf, a byddwn yn monitro defnydd o'r gwasanaethau hynny er mwyn asesu a oes mwy y gallwn ei wneud i annog defnydd o'r fersiynau Cymraeg.</p>
<p>ATODOL</p> <p>155+156+157+</p> <p>158+159+160</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth sydd yn ymwneud â threfniadau cydymffurfio gyda'r</p>	<p>Dilynir y drefn gwynion gorfforaethol wrth ymdrin â chwynion iaith, ac mae'r drefn honno ar wefan y Cyngor.</p> <p>Llunir a chyhoeddir adroddiad blynyddol gan y Cyngor yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.</p>

	Safonau Cyflewni Gwasanaeth	
--	--------------------------------	--

SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 10 o safonau llunio polisi, a 6 o safonau atodol llunio polisi. Eto, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu y tu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y'u gosodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
88+89+90+94	Safonau Llunio Polisi yn ymwneud ag ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.	Mae'r Uned Iaith yn chwarae mwy o rôl mewn asesiadau effaith, gan gynnig llais arbenigol ac annibynnol wrth asesu effaith newidiadau polisi neu ailstrwythuro gwasanaethau. Mae'r drefn o asesu effaith ar faterion cydraddoldeb yn cynnwys effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bydd yr Uned yn cyfrannu a gwirio unrhyw asesiadau er mwyn sicrhau'r effaith lleiaf posib.

SAFONAU GWEITHREDU

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHREDU
98	Safonau Llunio Polisi yn ymwneud â datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.	<p>Mae Polisi Iaith y Cyngor yn nodi mai iaith weinyddol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg, gan olygu y rhoir blaenoriaeth i'r Gymraeg bob amser mewn gweithrediadau mewnol ac y cyfathrebir gyda staff y Cyngor yn Gymraeg yn gyntaf.</p> <p>Caiff yr ymrwymiad hwn ystyriaeth ofalus wrth ddatblygu unrhyw systemau staff newydd (megis yr hunanwasanaeth staff ar fewnrwyd y Cyngor sydd wrthi'n cael ei ddatblygu a'i ymestyn) er mwyn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r Gymraeg, ac yn annog gweithwyr, cyn belled ag sydd yn bosib i ddefnyddio'r Gymraeg, ond gan hefyd sicrhau dewis iaith i'r rhai nad ydynt mor hyderus yn eu Gymraeg.</p>

127+136+136A+	Safonau Gweithredu yn ymwneud ag asesu sgiliau iaith ein cyflogeion	<p>Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth flynyddol gan bob adran i bennu nifer y staff sydd yn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae'r angen i siarad Cymraeg wedi cael ei osod fel sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor, sydd yn golygu bod angen rhyw lefel o allu a dealltwriaeth ar gyfer pob swydd.</p> <p>Drwy'r drefn newydd ar gyfer dynodi lefel anghenion iaith swyddi, fodd bynnag, byddwn yn y dyfodol yn gallu casglu gwybodaeth fanylach am union lefelau sgiliau staff.</p> <p>Mae gwaith wedi cychwyn gyda rhai adrannau i adnabod sgiliau staff presennol, a bydd cefnogaeth yn cael ei gynnig i bob adran fod wedi cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd Mawrth 2019.</p>
128+129+130 +131+132+133+	Safonau Gweithredu yn ymwneud ag hyfforddiant cyffredinol, hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth	<p>Mae nifer helaethaf hyfforddiant y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, gyda chyrsgiau Saesneg ar gael drwy gais yn unig.</p> <p>Yr unig rwystr i hyn yw pan fydd angen cyrsiau mewn meysydd arbenigol ac angen i brynu gwasanaeth i mewn.</p> <p>Rydym wedi gweithio ar geisio dylanwadu ar rai o'r darparwyr allanol hyn yn ystod y flwyddyn, gyda hyfforddiant iechyd a diogelwch IOSH yn un enghraifft nodedig, ac wedi cyfeirio'r mater am gefnogaeth y Comisiynydd.</p> <p>Mae uned Dysgu a Datblygu y Cyngor hefyd yn mynd ati i ddatblygu ac addasu cyrsiau eu hunain er mwyn bodloni'r angen ieithyddol, ac yn enwedig felly ym maes arweinyddiaeth a chyrsgiau a chymwysterau megis ILM.</p>

3. Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 - (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg

Mae'r data canlynol yn adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan roi dadansoddiad o lefel y sgiliau fesul gwasanaeth:

Nid yw'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer GWE ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (NMWTRA) gan eu bod yn adrannau rhanbarthol sydd yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Gwynedd.

GWASANAETH	CYFANSWM NIFER STAFF	NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL	NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT	NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG
Addysg – Staff canolog Staff Dysgu ¹	177	177		
Amgylchedd	159	155	4	
Cyllid	204	202	2	
Cefnogaeth Gorfforaethol	190	190		
Economi a Chymuned	531	504	22	5
Oedolion Iechyd a Llesiant	915	786	129 ²	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	238	209	29 ²	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	546	530	16	
Ymgynghoriaeth	111	99	11	1
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	33	33		
CYFANSWM	3100			

¹ Mae gwaith y mynd rhagddo fel rhan o waith cynllunio a datblygu'r gweithlu gan GWE (dan arweiniad grant gan y Llywodraeth) i asesu sgiliau iaith yr holl weithlu addysgu. Bydd gwybodaeth ar gael yn fuan.

2 Ni chesglir manylion am ddysgwyr neu rai a dim sgiliau o gwbl fel rhan o ddata blynyddol y gwasanaeth (STF) – dim ond nifer y staff sydd yn siaradwyr Cymraeg.

4. Adrodd ar hyfforddiant cyfrwng Gymraeg i staff a datblygu sgiliau iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gysiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennyh yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

Caiff holl raglen hyfforddiant mewnol y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg, gyda chysiau ar gael yn Saesneg ar gais. Os bydd aelodau o staff di-Gymraeg neu ddysgwyr mewn hyfforddiant anwytho, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ddwyieithog.

Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn asesu pob sefyllfa a chais am hyfforddiant Saesneg yn unigol ac yn ystyried sut orau i gyflwyno'r hyfforddiant heb amharu ar allu aelodau eraill i staff i gael dilyn yr un hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr unig achlysur lle y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol lle mae diffyg hyfforddwyr cymwys Gymraeg.

Nifer “**digwyddiadau**” hyfforddi mewnol yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2017 i 30 Mawrth 2018: **798**

Mae hyn yn gyfuniad o deitlau ‘corfforaethol’ ac ‘arbenigol’ ac yn cynnwys pob math o ddysgu – wyneb yn wyneb, e-fodiwlau a webinarau.

Nifer y teitlau hyfforddiant yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2017 i 30 Mawrth 2018: **252**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	CANRAN TEITLAU	MYNYCHWYR
Cymraeg	452	56.6%	1821
Saesneg	174	21.8%	894
Dwyieithog	172	21.6%	826

Canran a fynychodd hyfforddiant Cymraeg neu ddwyieithog felly: **78.2%**

- Mae'r ffigyrau uchod yn cyfrif mai un unigolyn sydd wedi mynychu bob digwyddiad - nid yw y ffigwr yn adlewyrchu niferoedd staff unigol a allai fod wedi mynychu mwy nag un cwrs yn ystod y flwyddyn
- Mae'r niferoedd yn cynnwys staff a chynghorwyr
- Mae'r niferoedd yn cynnwys pob math o hyfforddiant - wyneb i wyneb, sesiynau drwy webinar, sesiynau datblygu sgiliau TG, sesiynau dros gyfnod o wythnosau a gweithdai

Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2017- 2018

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penodwyd **Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg)** yn dilyn ymddeoliad Cydgysylltydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2017.

Mae'r penodiad newydd hwn wedi galluogi i'r Cyngor i ymestyn ei ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, ac edrych ar sefydlu cyrsiau sydd yn datblygu sgiliau ei staff Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â pharhau i gefnogi'r aelodau o staff hynny sydd angen dysgu'r Gymraeg neu wella eu defnydd o'r Gymraeg er mwyn gofynion eu swyddi.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y dysgwyr oedd yn mynychu cyrsiau allanol (yn enwedig rhai cymunedol) yn y cyfnod trosglwyddo, a gallai hynny fod am sawl rheswm. Gallem fod wedi colli rhai unigolion wrth drosglwyddo'r cyfrifoldebau i'r swyddog newydd. Ond hefyd rhaid ystyried y posibilrwydd bod rhai unigolion wedi gorffen cyrsiau, neu wedi penderfynu peidio â pharhau, neu bod y Cyngor wedi penodi llai o unigolion heb sgiliau Cymraeg i swyddi newydd yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o newidiadau hefyd wedi bod yn y ddarpariaeth allanol, a allai fod wedi achosi dryswch i nifer.

Achosodd y newidiadau i strwythur a threfniadau **Cymraeg i Oedolion**, er enghraifft, ychydig anhwylder ar y dechrau oherwydd dulliau newydd o gofrestru ar gwrs (byddai unigolion yn archebu lle eu hunain ar-lein yn hytrach na'r hen drefn o archebu trwy'r cydlynnydd hyfforddiant yn fewnol). Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlwyd perthynas dda rhwng y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion ym Mangor, a llwyddwyd i oresgyn materion yn weddol rwydd ar y cyfan. **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin** yw'r prif ddarparwr allanol ar hyn o bryd.

Serch hynny, rydym yn ystod y flwyddyn hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n mynychu cyrsiau gloywi ac mae'r ymateb i gyrsiau newydd sydd yn ymwneud â gramadeg a sgiliau ysgrifenedig wedi bod yn gadarnhaol iawn.

O safbwynt y ddarpariaeth a gynigiwyd i ddysgwyr, defnyddiwyd y trefniadau isod yn ôl y galw:

- Cyrsiau cymunedol dros gyfnod hir (dysgwyr yn mynychu unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn y gymuned)
- Sesiynau Gloywi iaith rheolaidd (ers Ionawr 2018) a gynhelir gan y Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) e.e. Treiglo, Cymraeg Elfennol
- Sesiynau unigol 1:1 gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) ar gais unigolion
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiworiaid allanol ar gais unigolion
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy – yn y Prifysgolion neu Nant Gwrtheyrn)
- Cyrsiau achlysurol – e.e. *Cymraeg yn y Gweithle* (dau ddiwrnod)
- Ysgolion Haf (a gynhaliwyd gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)
- Cwrs ar-lein gan Dysgu Cymraeg
- Cynhelir un dosbarth yn fewnol: Dosbarth lefel Meistroli (Lefel Uwch 2) – un bore'r wythnos.

Crynodeb (nifer yr unigolion cyfredol):

Cwrs	Lleoliad a Dyddiad	Nifer unigolion
Cyrsiau Cymunedol (ar lefelau Meistroli, Sylfaen, Canolradd ac Uwch)	Lleoliadau ar gael ar draws gogledd orllewin Cymru yn ôl y galw. Fel arfer, mynychir unwaith yr wythnos am hyd at ddwy awr am gyfnod o tua dwy flynedd (gan ddibynnu ar yr oriau cyswllt a'r lefel).	19
Cymraeg yn y Gweithle	2 ddiwrnod Mehefin 2018, Prifysgol Bangor	2
Dosbarth lefel Meistroli (gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg))	Ystafell Mawddach, y Ganolfan Ddysgu, bob bore Mercher 9:30-12:00(a 2 wedi gadael y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn)	5
Gloywi Iaith (mewnol)	Y Ganolfan Ddysgu, ers Ionawr 2018 hyd yma	32
Cwrs preswyl dwys (wythnos)	Nant Gwrtheyrn, Tachwedd 2017	1
Sesiynau 1:1 dysgu /gloywi Cymraeg	Trefnir sesiynau ymgynghorol neu diwtora 1:1 ar bob lefel ieithyddol gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) ar gais unigolion. Mae'r sesiynau hyn yn amrywio'n helaeth yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn, o ddysgu Cymraeg o'r dechrau i edrych dros ddarn o waith neu dderbyn arweiniad ar agweddau penodol o iaith.	16
Sesiynau 1:1 dysgu/gloywi Cymraeg gyda thiwtor allanol	Yn dibynnu ar yr unigolyn. Defnyddir Skype ar gyfer un ar hyn o bryd. Ebrill-Awst 2018.	4
Ysgol Haf (Gorffennaf 2018)	Yn ystod Gorffennaf 2018 am wythnos ym Mhrifysgol Bangor/Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli	1
		80

Ble mae'r derbynwyr?

Adran	Dysgwyr (Mynediad-Uwch)	Gloywi
Oedolion, Iechyd a Llesiant	24	4
Ymgynghoriaeth	12	1
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2	11
Cefnffyrdd (NMWTRA)	4	0
Addysg	3	2
Amgylchedd	2	0
Cyllid	1	0
Economi a Chymuned	2	6
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	0	1
Cefnogaeth Gorfforaethol	0	5
Cyfanswm	50	30

Ceisiadau cyfredol am hyfforddiant: 14

Mae 14 unigolyn wedi gwneud cais am hyfforddiant iaith (ar lefelau amrywiol), ac mae'r ceisiadau wedi mynd i'r rheolwyr llinell am gadarnhad neu i'r darparwyr am le ar y cyrsiau.

Mae 28 unigolyn wedi gwneud cais am le ar gwrs Gloywi iaith mewnol rhwng nawr a mis Medi.

Datblygiadau:

Datblygu cyrsiau newydd

Ym mis Ionawr 2018, cyflwynwyd dau gwrs newydd yn dilyn ymchwil a wnaed trwy holiaduron (a gwblhawyd gan tua 190 o aelodau o staff) rhwng Hydref a Rhagfyr 2017. Roedd un ohonynt, sef hyfforddiant Treiglo, wedi'i gynnig yn y gorffennol, ond nid yn fewnol ers rhai blynyddoedd ac mae'r ymateb i'r cwrs hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn ers ei sefydlu. Roedd y llall, Cymraeg Elfennol, yn gwrs newydd sbon a sefydlwyd yn uniongyrchol yn dilyn ceisiadau gan staff. Mae'r cwrs hwn yn dechrau ennill ei blwyf, ac yn addas ar gyfer timau sydd eisieu gloywi iaith ar y cyd.

Cafodd cwrs newydd ei ddatblygu yn dilyn cais penodol gan Reolwr hefyd, sef Datblygu Cymraeg Ysgrifenedig a chyflwynwyd yr hyfforddiant hwn i'r tîm dan sylw ym mis Chwefror 2018. Ers hynny, mae rheolwr arall wedi gwneud cais am yr un cwrs a fydd yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

Does dim dwywaith na fydd y gwaith ar y dynodiadau iaith yn amlygu rhagor o angen ar gyfer cyrsiau llafar ac ysgrifennu Cymraeg yn y dyfodol agos. Mwy am y Dynodiadau iaith isod.

Cytundeb

Er mwyn ceisio hwyluso a ffurfioli'r trefniant rhwng y Cyngor, yr unigolyn a'r darparwr allanol, yn ogystal â cheisio lleihau'r nifer a roddai'r gorau neu a gollai gyfres o sesiynau, cyflwynwyd Cytundeb Hyfforddiant iaith a lofnodir gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu, yr unigolyn a'i reolwr llinell. Mae'r cytundeb yn debyg iawn i gytundeb hyfforddiant cyffredinol y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu, ond wedi'i addasu'n benodol er mwyn adlewyrchu'r gofynion ieithyddol ac er mwyn cynnwys trefn asesu'r unigolyn yn erbyn dynodiad iaith y swydd.

Dynodiadau iaith (a'r Fframwaith iaith)

Datblygwyd Fframwaith iaith newydd gan Gydgyssylltydd y Gymraeg cyn iddi ymddeol, ac erbyn hyn mae rheolwyr llinell wedi pennu dynodiad iaith i bob swydd dan eu gofal gan ddefnyddio'r Fframwaith iaith hwnnw.

Y cam nesaf fydd iddynt fynd ati i adnabod sgiliau iaith y staff, yn unol a'r fframwaith honno, ac os bydd unrhyw wahaniaeth rhwng dynodiad y swydd a lefel sgiliau yr unigolyn, eu cyfeirio at y Swyddog Dysgu a Datblygu am gefnogaeth a hyfforddiant.

Fel enghraifft o arfer dda, mae'r adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi brasgamu trwy'r broses a bellach mae trefniant wedi'i wneud ar gyfer y rhan helaeth o'r rheiny a adnabuwyd i dderbyn hyfforddiant iaith.

Mae trafodaethau bellach wedi dechrau gyda'r gwasanaeth Hamdden i gynnig cefnogaeth i aelodau o staff mewn canolfannau hamdden yn y dyfodol agos, a bydd y Swyddog Dysgu a Datblygu (iaith Gymraeg) yn ymweld â gweddill yr adrannau yn eu tro.

Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2017 – 2018

Yn hanesyddol, mae'r wobwr hon, a gaiff ei chyflwyno fel rhan o'r seremoni Cyngor ar ei Orau, wedi'i chyflwyno i ddysgwyr Cymraeg am eu hymdrech i ddysgu'r iaith. Y llynedd, roedd y wobwr yn cydnabod unigolion a oedd yn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ac ar arwain drwy esiimpl.

Ond eleni, penderfynwyd cydnabod y ddwy garfan hon o unigolion ac felly cyflwynwyd dwy wobwr wahanol am y tro cyntaf, sef Gwobr Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle a Gwobr Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle.

Yr enillwyr eleni oedd:

Gwobr Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle: David Birdsall – Gweithiwr Cymdeithasol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Economi a Chymuned)

Gwobr hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle: Nia Jane Owen-Midwodd – Cynorthwy-ydd
Personol i Bennaeth yr Adran Ymgynghoriaeth (Ymgynghoriaeth Gwynedd)

5. Adrodd ar ofynion iaith wrth benodi

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	481
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

6. Adrodd ar gwynion iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(d) nifer y cwynion a dderbyniwyd

Cafwyd dau ymchwiliad gan y Comisiynydd iaith i fethiant honedig i gydymffurfio gyda'r Safonau yn ystod 2017-18.

Ymchwiliad CSG127

Roedd yr ymchwiliad hwn yn ymwneud ag amheuaeth bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â dau Safon wrth ddarparu gwersi nofio mewn canolfannau hamdden.

Safon 81

Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Safon 84

Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.

Cafwyd dyfarniad terfynol yr ymchwiliad ar **25 Gorffennaf 2017** a'r dyfarniad yn nodi nad oedd y Cyngor, ym marn y Comisiynydd, wedi methu a chydymffurfio gyda Safon 84, ond eu bod wedi methu gyda Safon 81, ar y sail nad ydym ar hyn o bryd yn nodi bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg wrth hybu a hysbysebu'r gwersi nofio.

Ymholiadau ac ymchwiliadau eraill gan y Comisiynydd:

Cafwyd un ymholiad am gytundeb rhwng y Cyngor a darparwr allanol, yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod swydd yn cael eu hysbysebu yn uniaith Saesneg. Cytunodd y Comisiynydd bod y Cyngor yn delio gyda'r mater ac na fyddai angen ymchwiliad pellach.

Derbyniwyd cwyn am broses apelio y Cyngor ym mis **Gorffennaf 2017**. Rydym yn dal i aros penderfyniad y Comisiynydd ar yr achos hwn.

Nifer cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol drwy broses gwynion y Cyngor:

Adran	Nifer y Cwynion
Cefnogaeth Gorfforaethol	2

Roedd y ddwy gŵyn uchod yn erbyn Polisi Iaith y Cyngor yn ymwneud â pholisi recriwtio'r Cyngor a'r angen i gael sgiliau Cymraeg i ymgeisio am swyddi.

Gwaith datblygol:

Mae gennym ffrwd gwaith prosiect o dan y teitl “Cymraeg yn y Gweithle”, sydd yn edrych yn thematig ar wahanol agweddau o gydymffurfiaeth ac yn ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatblygu gallu’r Cyngor i gynnig dewis iaith yn rhagweithiol ac i annog mwy o’r cyhoedd i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio yn bennaf ar y gwaith dynodiadau iaith swyddi, ac wedi adnabod meysydd thematig sydd yn cynnwys defnydd iaith wrth ddatblygu gwasanaethau ar-lein a defnyddio apiau.

Yn ystod 2017-18 hefyd rhoddwyd llawer o sylw i osod cyfeiriad strategol y Gymraeg ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Yn ogystal â datblygu dogfen strategol ar hybu’r Gymraeg, yn unol a gofynion y Safonau, bu’r Cyngor hefyd yn llunio Cynllun y Cyngor – y ddogfen sydd yn gosod cyfeiriad strategol y Cyngor yn ei gyfanrwydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf – a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn, gan osod y Gymraeg yn gwbl ganolog i’w holl gynlluniau.

Asesu Sgiliau Iaith (Safonau 136-137)

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu’r prosiect sgiliau iaith gyda’r adran Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu. Mae’r drefn newydd ar gyfer pennu sgiliau iaith angenrheidiol wrth benodi wedi ei sefydlu, a phob adran yn y Cyngor bellach wedi edrych ar ddynodiad iaith pob swydd o fewn eu strwythur presennol.

Ail gam y gwaith hwn, sydd ar fin dechrau yw gweithio gydag adrannau i adnabod lefelau iaith yr unigolion sydd yn y swyddi hynny, er mwyn gweld a ydynt yn cyrraedd y gofynion iaith a nodwyd ar gyfer y swydd. Bydd rheolwyr yna’n gweithio gyda’r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith er mwyn adnabod anghenion hyfforddi, ac i gyfeirio’r swyddogion at yr hyfforddiant priodol.

Gan fod nifer y gweithwyr sydd heb unrhyw allu yn y Gymraeg yn isel iawn, nid yw hyn yn debygol o arwain at gynnydd mawr yn y galw am wersi dysgu Cymraeg, ond mae’n debygol o arwain at fwy o alw am hyfforddiant gwahanol, megis gloywi iaith neu ddatblygu sgiliau ysgrifenedig. Mae’r tuedd hwn eisoes wedi amlygu ei hun, ac wedi arwain at newid yn narpariaeth hyfforddiant y tîm Dysgu a Datblygu.

Safonau Hybu:

Yn ystod 2017-18 mae’r Cyngor wedi bod yn datblygu ei gynllun strategol newydd ar gyfer hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd. Bydd y cynllun hwn yn ddilyniant o’r strategaeth sirol flaenorol, oedd yn cael ei harwain gan y fenter iaith yn lleol, Hunaniaith, ac yn edrych yn benodol ar ganfod cyfleoedd i

gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg y trigolion. Bydd drafft terfynol a chynllun gweithredu blwyddyn gyntaf y **Cynllun Hybu** yn cael ei ddatblygu dros Haf 2018, a'i weithredu tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Eitem 9

Canfyddiadau cychwynnol ymgynghori ar Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023

Cyfrannodd **121** o unigolion neu sefydliadau tuag at yr ymgynghoriad cyhoeddus, gyda thrawsdoriad eang o ran oedran a lleoliad ar draws y sir.

Cafwyd **107** o ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r holiadur ar-lein, gyda'r gweddill yn cyfrannu drwy'r digwyddiadau cyhoeddus neu drwy anfon sylwadau yn uniongyrchol.

Fel rhaniad daearyddol, roedd nifer yr ymatebwyr fesul ardal llesiant fel a ganlyn:

- Bala – 2
- Bangor – 22
- Caernarfon – 29
- Dolgellau – 4
- Ffestiniog – 5
- Llŷn – 17
- Porthmadog – 8
- Tywyn – 10

(Roedd 10 wedi ymateb naill ai efo cod post y tu allan i Wynedd neu gydag un na ellid ei osod mewn ardal llesiant).

Dyma faint o ymatebwyr oedd ym mhob grwp oedran

- 18-29 – 15
- 30-39 – 26
- 40-49 – 27
- 50-59 – 18
- 60-69 – 16
- 70 neu hŷn – 3

Ni wnaeth 2 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn yma.

Roedd y mwyafrif wedi ymateb i'r holiadur fel unigolion, gyda **4** wedi ymateb ar ran sefydliad neu fusnes: Anelu Aim Higher, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Phrifysgol Bangor.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r Parc, y Brifysgol a Chartrefi Cymunedol Gwynedd i drafod rhai sylwadau a chynigion cydweithio ymhellach, a gobeithir gallu adlewyrchu'r rheiny yn y Cynllun a camau gweithredu terfynol.

Ar y cyfan, mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol iawn, gyda dim ond 17 ymatebwr yn anghytuno gyda'r dehongliad o'r heriau a'r cyfleoedd sydd yna i gryfhau'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Ceir yma grynodedb gychwynnol o'r ymatebion a'r sylwadau a gafwyd fel rhan o'r ymgynghori, ynghyd â chynigion i'w hystyried wrth lunio'r Cynllun Hybu terfynol.

1. Dehongliad o'r heriau cyffredinol (tudalennau 2 a 3 y Cynllun)

Roedd yr adran yma wedi ei rannu i ddau gwestiwn – yn cyntaf yn gofyn iddynt a oeddynt yn cytuno gyda'r weledigaeth, a'r ail yn gofyn a oeddynt yn teimlo ein bod wedi methu unrhyw beth. Ymdriniwn â'r ymatebion gyda'i gilydd yma, gan fod yr atebion yn delio gyda'r un materion.

1.1 Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Diffyg cyfleoedd a diffyg defnydd**
- **Mewnfudo a chefnogi ddysgwyr**
- **Rôl technoleg**

Diffyg defnydd a diffyg cyfleoedd oedd y thema mwyaf cyffredin wrth ateb a oeddynt yn cytuno neu beidio gyda'r heriau a nodwyd yn y ddogfen ddrafft, a hynny o safbwynt unigolion ac hefyd gan gyrff a sefydliadau. Mae'r heriau a nodwyd gennym yn y Cynllun yn amlwg i gyd yn bethau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd unigolion, a chyfeirir at y diffyg cyfleoedd mewn sawl maes, felly rydym yn fodlon ein bod yn delio gyda'r mater hwn.

Wrth edrych ar yr ymatebion i'r ddau gwestiwn sydd yn ymwneud efo'r heriau a'r cyfleoedd, mae dwy thema yn amlygu eu hunain, sef dylanwad **mewnfudo a thechnoleg**.

Mewnfudo a chefnogi dysgwyr:

O'r 60 ymateb a nodwyd ar gyfer y cwestiwn oedd yn holi a oeddynt yn teimlo ein bod wedi methu unrhyw heriau, roedd 22 yn ymwneud efo "mewnfudwyr" a faint o gefnogaeth sydd ar gael i bobl sydyn symud i mewn i'r ardal i allu dysgu'r iaith.

Roedd yna bwyslais cryf yn yr ymatebion hefyd ar y diffyg cyfleoedd ar gyfer dysgu'r Gymraeg, a'r ddiffyg cefnogaeth i bobl sydd ag awydd i ddysgu. Mae'n deg dweud nad yw'r ddogfen ddrafft, o adlewyrchu, yn rhoi digon o sylw i'r gefnogaeth a'r anogaeth y gellir ei roi i newydd-ddyfodiaid i Wynedd. Mae dylanwad Cyngor Gwynedd yn gyfyng yn y maes hwn, ond mae neges gryf yma i'w rhannu gyda sefydliadau partner megis Cymraeg i Oedolion.

Roedd nifer o'r sylwadau hefyd yn cyfeirio yn benodol at y cyswllt rhwng gallu ieithyddol a'r gallu i gael swyddi o fewn y sir, a chyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg wrth weithio. Er enghraifft:

"You challenge is mostly lack of inclusion for non Welsh speakers. Only Welsh speakers can access public services jobs but when the nearest Welsh classes are a 20 mile round trip to the nearest town it is completely impractical to learn Welsh in your spare time. If you had a 'learn on the job' scheme then you could employ the best person for the job rather than the best Welsh speaker for the job. It is much easier to learn a language when you are immersed in it every day opposed to an hour once a week."

"I think more support to people who have just moved to the area and welsh is not their first language should be given support when applying for work as it seems to be a barrier even if people are willing to attend weekly language classes this should be taken in to account when applying for work within Gwynedd and not be a barrier because you have to be at a certain lever . If people are willing to learn the language then this should be taken in to account "

“The difficulty for those who cannot speak Welsh to access Welsh language jobs. There isn’t enough done to help people learn and access those jobs including support by employers to take on learners and help them improve “

Eto, mae neges gryf yma i’w throsglwyddo i gynlluniau’r llywodraeth – Cymraeg Gwaith – ond mae neges yma i Gyngor Gwynedd hefyd a her i ni feddwl am sut rydym yn codi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd sydd ar gael o fewn y Cyngor ei hun i gefnogi dysgwyr ac i ddatblygu sgiliau.

Rôl technoleg:

Er bod sylw yng nghorff y ddogfen ei hun am rôl technoleg, nid oeddem wedi ei gynnwys yn yr heriau a chyfleoedd ar gychwyn y ddogfen. Efallai bod werth ystyried cynnwys nod cyffredinol i gynyddu defnydd o’r Gymraeg mewn technoleg.

1.2 Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylid rhoi mwy o bwyslais yn y ddogfen ar y gefnogaeth a roddir i newydd-ddyfodiaid a rhai sydd yn barod i ddysgu’r Gymraeg?
- ii) A ddylid ystyried cynnwys nod i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd a’r cynlluniau sydd ar gael i gefnogi dysgu tra’n gweithio – o fewn y Cyngor a thu allan?
- iii) A ddylid cynnwys nod cyffredinol ar gyfer cynyddu defnydd o’r Gymraeg mewn technoleg?

2. Y weledigaeth (tudalen 4)

Roedd **86** allan o’r **104** o ymatebion i’r holiadur yn gefnogol i’r weledigaeth gyffredinol a nodir yn y Cynllun.

Eto, mae cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a dysgwyr yn amlygu ei hun yn yr ymatebion i’r adran hon.

Mae’n anorod bod rhywfaint o sylwadau negyddol mewn ymateb i’r cwestiwn hwn (a’r cynllun yn gyffredinol). Mae ambell un yn mynegi anfodlonrwydd bod y Cyngor yn gwario arian ar y Gymraeg ar draul meysydd eraill o flaenoriaeth ac mae ambell sylw yn nodi bod y cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn y di-Gymraeg a bod gwrthio’r agenda yn debygol o arwain at fwy o raniad mewn cymunedau ac agweddau “dall ac ynysig” (“blinker and insular attitude”). Mae’n bwysig ein bod yn cadw’r sylwadau hyn mewn cof, ac yn sicrhau bod pwyslais y Cynllun Hybu ar gydraddoldeb a chyfle cyfartal i bawb.

3. Meysydd Blaenoriaeth Unigol y Cynllun Hybu

Gofynnwyd yr un set o gwestiynau ar gyfer pob maes blaenoriaeth, sef:

1. Yda chi’n cytuno efo’r weledigaeth yn y maes?
2. Yda chi’n cytuno efo’r dehongliad o’r hyn sydd angen digwydd?
3. Oes yna gyfleoedd eraill y dylem roi sylw penodol iddynt yn y maes yma?

Maes Blaenoriaeth 1: Iaith y Cartref

Crynodeb:

Roedd 81 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma.

Dewisodd 30 nodi cyfleoedd neu sylwadau ychwanegol.

Prif themâu a natur y sylwadau:

- ***Cyfleoedd sydd yn cynnwys pawb a ddim yn dieithrio***
- ***Mwy o gefnogaeth i rieni ddysgu ochr yn ochr efo'u plant***

Roedd nifer o sylwadau pellach yn y maes yma yn cyfeirio at feysydd gwaith neu gynulleidfa darged oedd yn cael sylw mewn rhannau eraill o'r cynllun e.e. "Cynnydd mewn cefnogaeth i fudiadau gwirfoddol sy'n gweithredu yn Gymraeg gyda phlant a phobl ifanc". Mae hyn yn awgrymu bod angen bod yn fwy eglur ynghylch pwy yw'r gynulleidfa darged yn y weledigaeth ar gyfer y maes blaenoriaeth yma.

Mae nifer o sylwadau hefyd ynghylch cynhwysiad a sut rydym yn mynd ati i gynnwys siaradwyr di-Gymraeg mewn gweithgareddau heb iddynt deimlo eu bod yn cael eu hynysu. Roedd pryder yn cael ei fynegi unwaith eto nad oes digon o gyfleoedd i rieni sydd ag awydd i ddysgu Cymraeg.

Bydd gweithredu yn y maes hwn yn dibynnu'n fawr ar gydweithio gyda phartneriaid megis y Mudiad Meithrin, a sawl ymatebydd yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a dylanwadu ar rieni gyda babanod, sydd yn cyd-fynd gyda'n gweledigaeth.

Mae ambell sylw, fodd bynnag, yn gofyn i ni edrych a yw ein gweledigaeth ar gyfer y maes hwn yn rhy gyfyng ei gwmpas. Gweler y sylw isod:

"Fel mam i ddau aeth nol i'r gwaith ar ôl genedigaeth doeddwn i ddim yn mynychu sesiynau Cylch Meithrin, sesiynau stori a chan mewn llyfrgelloedd etc. Byddai gwbyodaeth am lle i gael adnoddau a gweithgareddau penwythnos wedi o help i mi."

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylid ystyried cynnwys targed penodol yn y cynllun gweithredu i greu rhwydwaith, fydd yn cynnwys partneriaid allweddol yn y maes, er mwyn cydlynu ymdrechion ac adeiladu ar brofiad blaenorol yn y maes?
- ii) A ddylem ystyried sut y gallwn ddylanwadu ar yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd yn cael eu cynnig i rieni a theuluoedd estynedig i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg gyda'u plant ifanc, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys, a bod grwpiau cymunedol yn cael eu gweld fel cyfleoedd cymdeithasu a dysgu yn hytrach na grwpiau iaith yn unig?
- iii) A ddylem addasu geiriad y trydydd pwynt bwled "Cynnydd yn nifer y rhieni sydd yn dysgu rhywfaint o Gymraeg ac yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd" – naill ai i fod yn diffinio'r "rhywfaint" yn well, neu i newid y pwyslais i fod ar gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu fel teulu, yn hytrach na chynnydd yn nifer y rhieni? Drwy newid y pwyslais byddai'r amcan yn cynnwys y teulu cyfan, ac yn cynnwys elfen o dynnu sylw a chodi ymwybyddiaeth at y cyfleoedd sydd ar gael i rieni a theuluoedd ddysgu ochr yn ochr a'u plant.

Maes Blaenoriaeth 2: Iaith dysgu

Crynodeb:

Roedd 78 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 76 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Dewisodd 22 o bobl gynnig sylwadau neu syniadau yn y maes hwn

Prif themâu a natur y sylwadau:

- Angen sylw penodol ar addysg uwchradd
- Angen sicrhau bod digon o gyfleoedd i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil a'r cyswllt efo byd gwaith.

Roedd nifer fawr o'r sylwadau yn ymwneud yn benodol gydag addysg uwchradd, ac yn cynnwys sylwadau am yr angen am "fwy o bwyslais ar y Gymraeg" a "parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu astudiaethau 6ed dosbarth", ond hefyd sylwadau am rôl athrawon a'r angen iddynt fod yn "ymwybodol o werth astudio drwy gyfrwng y Gymraeg" er mwyn iddynt allu rhoi'r anogaeth gywir i'r disgyblion.

Mae cynllun y Strategaeth Iaith Uwchradd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godir, ond wrth gwrs mae'r cynllun hwnnw yn ei ddyddiau cynnar, ac ymwybyddiaeth am ei fwriad a'i amcanion yn isel iawn ar hyn o bryd. Bydd angen cadw rhai o'r sylwadau hyn mewn cof wrth lunio'r cynllun gweithredu a gosod blaenoriaethau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ceir ambell sylw am y siarter cynradd hefyd, sydd yn awgrymu bod dal gwaith i'w wneud i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni am y Siarter.

Teimlad o "orfodaeth" ymysg yr ymatebion, a theimlad nad oes digon o bwyslais ar ddatblygu sgiliau'r Saesneg. A chydabod mai strategaeth i hybu'r Gymraeg yn benodol yw hon, mae sylwadau fel hyn yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth am y polisi addysg a'r nod i greu dinasyddion "hyderus ddwyieithog". Mae ambell sylw yma hefyd yn awgrymu diffyg dealltwriaeth neu ymwybyddiaeth ymysg rhieni am waith y Siarter iaith.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylem ystyried ehangu'r nod o wella'r cyswllt gyda byd gwaith i gynnwys ysgolion hefyd (nid sector galwedigaethol yn unig fel y mae yn Cynllun ar hyn o bryd)?
- ii) A ddylem ni ystyried cynnwys codi ymwybyddiaeth athrawon am eu cyfraniad at y weledigaeth ehangach fel nod strategol?
- iii) A ddylem roi blaenoriaeth i waith ymchwil pellach i ddeall patrymau dewisiadau iaith disgyblion?

Maes Blaenoriaeth 3: Iaith Gwaith a Gwasanaeth

Crynodeb:

Roedd 78 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 73 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Dewisodd 17 o bobl gynnig sylwadau neu syniadau ychwanegol yn y maes hwn

Roedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys ymateb ar ran cyrff sydd yn berthnasol i'r maes hwn: Parc Cenedlaethol Eryri, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Prifysgol Bangor

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Gwell cefnogaeth i fusnesau a dysgwyr**
- **Technoleg**
- **Iaith syml a dealladwy**
- **Sylw cyfartal ar y sector gyhoeddus a preifat**

Mae dau sylw penodol yn cael ei wneud nad oes llawer o sôn am dechnoleg cyn yr adran hon, ac fel mewn maes blaenorol ceir nifer o sylwadau am gyfleoedd i unigolion ddysgu'r Gymraeg tra yn gweithio. Mae cynlluniau yn bodoli, dan nawdd y Llywodraeth, ond oes peryg nad ydynt yn cyrraedd y manau sydd angen iddynt yng Ngwynedd?.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylid ystyried sut mae rôl technoleg yn cael ei adlewyrchu yn y gwahanol feysydd a beth yw rôl y Cyngor yn hyn?
- ii) A ddylid gosod nod penodol i edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer busnesau ac unigolion i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, gan edrych ar strategaeth dargedu benodol ar gyfer Gwynedd ar y cyd gyda darparwyr Cymraeg i Oedolion a Chymraeg Gwaith?

Maes Blaenoriaeth 4: Iaith y Gymuned

Crynodeb:

Roedd 75 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 72 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Cynhwysiad – pwysig bod pawb yn teimlo yn rhan o weithgarwch**
- **Perchnogaeth gymunedol (“anogaeth dim ymyrraeth”)**
- **Cefnogaeth i ddysgwyr, a chefnogaeth cyfieithu**
- **Cydweithio gyda chyrrff eraill**

Yn anrffod roedd sylwadau yn yr ymgynghoriad ynghylch y penderfyniad i newid y gwasanaeth ieuencid a chau'r clybiau ieuencid, a beth fydd effaith hyn ar y Gymraeg yn y gymuned. Gan fod y cynllun drafft wedi ei ysgrifennu cyn derbyn y penderfyniad hwnnw, nid oedd yn bosib manylu ar unrhyw flaenoriaethu yn y maes hwnnw, ond bydd angen i'r cynllun terfynol gynnwys sylw penodol at waith ieuencid a'u rôl wrth gynnal y Gymraeg yn y gymuned.

Mae dau sylw yn nodi bod angen sicrhau perchnogaeth leol a chan bobl ifanc, a'i bod yn bwysig nad yw digwyddiadau yn "troi yn rhywbeth ffurfiol, polisi", ac mae hyn yn cyd-fynd gydag egwyddor hunaniaith o geisio arfogi a chydweithio, yn hytrach na darparu yn uniongyrchol ar ran y gymuned, ond efallai bod lle yn y cynllun terfynol i nodi'r egwyddor hwn yn fwy eglur.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) Cynigir newid geiriad y trydydd pwynt bwled yn y weledigaeth ar gyfer yr adran hon i'w wneud yn glir mai'r nod yw dylanwadau ar weithgareddau sydd yn gweithredu yn uniaith Saesneg, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg a sicrhau eu bod yn cael eu gweld fel gweithgareddau dwyieithog, ac nid uniaith.
- ii) Dylid ystyried y cynigion cydweithio penodol sydd yn yr ymatebion – yn benodol gyda Phrifysgol Bangor/Pontio a'r Parc Cenedlaethol – ac ystyried sut y gallwn drosglwyddo'r syniadau yn weithredoedd neu nodau penodol ar gyfer y cynllun hybu terfynol.
- iii) A ddylid bod yn fwy eglur ynghylch pwy yw'r cyfranwyr yn y maes hwn – y tu hwnt i hunaniaith – a nodi sut rydym yn bwriadu cydweithio gyda chymunedau e.e. gosod nod o ffurfio fforwm gymunedol fydd yn gallu bod yn rhan o osod blaenoriaethau'r fenter ar gyfer y 3 blynedd nesaf (cylch ariannu)?

Maes Blaenoriaeth 5: Ymchwil a Thechnoleg –gosod y seiliau cywir

Crynodeb:

Roedd 67 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 64 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Nid oedd y ddogfen ddrafft yn cyfeirio yn benodol at ddatblygu'r berthynas gyda Phrifysgol Bangor, er ein bod yn ymwybodol o'r gwaith da sydd yn digwydd yno – yn enwedig werth ystyried y maes yma. Yn dilyn sylwadau yn yr ymgynghori, a sgwrs bellach gyda chynrychiolwyr y Brifysgol, gobeithir gallu manylu mwy ar y berthynas a'r cyfleoedd yn y ddogfen derfynol.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylem ystyried cynnwys pwynt bwled ychwanegol sydd yn dweud rhywbeth tebyg i ... "Hybu datblygiad technolegau newydd ar gyfer y Gymraeg" – h.y. ein bod yn edrych ar gynlluniau neu ymgyrchoedd posib sydd yn edrych ar gyfraniad y Cyngor at ddatblygu a thyfu'r sector meddalwedd yng Ngwynedd.
- ii) A ddylid cynnwys nod ychwanegol sydd yn ymwneud efo defnydd cyrff cyhoeddus (ac ysgolion) o feddalwedd Cymraeg – neu ei gynnwys fel rhan o'r maes Gwaith a Gwasanaethau?

4. Camau nesaf:

Bydd yr holl sylwadau yn cael eu hystyried wrth i ni fynd ati i lunio'r Cynllun terfynol. Mae rhai syniadau neu awgrymiadau penodol y byddwn hefyd yn ceisio eu ymgorffori yn y cynllun gweithredu fydd yn manylu ar sut y byddwn yn gweithredu'r weledigaeth.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	10 Gorffennaf 2018
TEITL:	Ymgynghoriad Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd (Strategaeth Iaith Sirol)
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
PWRPAS YR ADRODDIAD	Rhoi diweddariad i'r Aelodau am y broses o greu'r Cynllun Hybu ac adrodd ar ganfyddiadau'r ymgynghori cyhoeddus.

1. Cefndir

- 1.1 Yn unol â gofyn Safon 145 (Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ni lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ein hardal.
- 1.2 Cafodd strategaeth ddrafft – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 - ei llunio yn gynharach eleni ar sail ymgynghori gydag aelodau a dadansoddiad o strategaethau a chynlluniau perthnasol yn y maes.
- 1.3 Cafodd y Cynllun Hybu ei rannu ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ar y 24ain o Ebrill 2018, a chafodd y proses ymgynghori ei chynnal dros gyfnod o 6 wythnos, hyd y 5ed o Fehefin.
- 1.4 Roedd posibil cyfrannu tuag at yr ymgynghori drwy holiadur ar-lein, drwy gysylltu yn uniongyrchol a'r Uned Iaith, neu drwy fynychu un o dri digwyddiad agored a gynhaliwyd ym Mangor, Tywyn a Phwllheli.
- 1.5 Rhoir crynodeb yma o'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae posibil gweld adroddiad manylach yn yr atodiad i'r eitem hon.

2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghori

Cynigir crynodeb yma o'r ymatebion a dderbyniwyd, gan hefyd dynnu sylw at y prif themâu ar gyfer pob maes yn y Cynllun.

2.1 Cyfrannodd **121** o unigolion neu sefydliadau tuag at yr ymgynghoriad cyhoeddus., gyda thrawsdoriad eang o ran oedran a lleoliad ar draws y sir.

2.2 Cafwyd **107** o ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r holiadur ar-lein, gyda'r gweddill yn cyfrannu drwy'r digwyddiadau cyhoeddus neu drwy anfon sylwadau yn uniongyrchol.

2.3 Fel rhaniad daeryddol, roedd nifer yr ymatebwyr fesul ardal llesiant fel a ganlyn:

- Bala – 2
- Bangor – 22
- Caernarfon – 29
- Dolgellau – 4
- Ffestiniog – 5
- Llŷn – 17
- Porthmadog – 8
- Tywyn – 10

(Roedd 10 wedi ymateb naill ai efo cod post y tu allan i Wynedd neu gydag un na ellid ei osod mewn ardal llesiant).

2.4 Dyma faint o ymatebwyr oedd ym mhob grwp oedran

- 18-29 – 15
- 30-39 – 26
- 40-49 – 27
- 50-59 – 18
- 60-69 – 16
- 70 neu hŷn – 3

Ni wnaeth 2 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn yma.

2.5 Adran Dehongliad o'r heriau cyffredinol (tudalennau 2 a 3 y Cynllun)

Prif themâu a natur y sylwadau:

- ***Diffyg cyfleoedd a diffyg defnydd***
- ***Mewnfudo a chefnogi ddysgwyr***
- ***Rôl technoleg***

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylid rhoi mwy o bwyslais yn y ddogfen ar y gefnogaeth a roddir i newydd-ddyfodiaid a rhai sydd yn barod i ddysgu'r Gymraeg?
- ii) A ddylid ystyried cynnwys nod i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd a'r cynlluniau sydd ar gael i gefnogi dysgu tra'n gweithio – o fewn y Cyngor a thu allan.
- iii) A ddylid cynnwys nod cyffredinol ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg.

2.6 Maes Blaenoriaeth 1: Iaith y Cartref

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Cyfleoedd sydd yn cynnwys pawb a ddim yn dieithrio**
- **Mwy o gefnogaeth i rieni ddysgu ochr yn ochr efo'u plant**

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- A ddylid ystyried cynnwys targed penodol yn y cynllun gweithredu i greu rhwydwaith, fydd yn cynnwys partneriaid allweddol yn y maes, er mwyn cydlynu ymdrechion ac adeiladu ar brofiad blaenorol yn y maes?
- A ddylem ystyried sut y gallwn ddylanwadu ar yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd yn cael eu cynnig i rieni a theuluoedd estynedig i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg gyda'u plant ifanc, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys, a bod grwpiau cymunedol yn cael eu gweld fel cyfleoedd cymdeithasu a dysgu yn hytrach na grwpiau iaith yn unig?
- A ddylem addasu geiriad y trydydd pwynt bwled "Cynnydd yn nifer y rhieni sydd yn dysgu rhywfaint o Gymraeg ac yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd" – naill ai i fod yn diffinio'r "rhywfaint" yn well, neu i newid y pwyslais i fod ar gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu fel teulu, yn hytrach na chynnydd yn nifer y rhieni? Drwy newid y pwyslais byddai'r amcan yn cynnwys y teulu cyfan, ac yn cynnwys elfen o dynnu sylw a chodi ymwybyddiaeth at y cyfleoedd sydd ar gael i rieni a theuluoedd ddysgu ochr yn ochr a'u plant.

2.7 Maes Blaenoriaeth 2: Iaith dysgu

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Angen sylw penodol ar addysg uwchradd**
- **Angen sicrhau bod digon o gyfleoedd i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil a'r cyswllt efo byd gwaith.**

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- A ddylem ystyried ehangu'r nod o wella'r cyswllt gyda byd gwaith i gynnwys ysgolion hefyd (nid sector galwedigaethol yn unig fel y mae yn Cynllun ar hyn o bryd)?
- A ddylem ni ystyried cynnwys codi ymwybyddiaeth athrawon am eu cyfraniad at y weledigaeth ehangach fel nod strategol?
- A ddylem roi blaenoriaeth i waith ymchwil pellach i ddeall patrymau dewisiadau iaith disgyblion?

2.8 Maes Blaenoriaeth 3: Iaith gwaith a gwasanaeth

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Gwell cefnogaeth i fusnesau a dysgwyr**
- **Technoleg**
- **Iaith syml a dealladwy**

- Sylw cyfartal ar y sector gyhoeddus a preifat

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- A ddylid ystyried sut mae rôl technoleg yn cael ei adlewyrchu yn y gwahanol feysydd a beth yw rôl y Cyngor yn hyn?
- A ddylid gosod nod penodol i edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer busnesau ac unigolion i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, gan edrych ar strategaeth dargeddu benodol ar gyfer Gwynedd ar y cyd gyda darparwyr Cymraeg i Oedolion a Chymraeg Gwaith?

2.9 Maes Blaenoriaeth 4: Iaith y gymuned

Prif themâu a natur y sylwadau:

- Cynhwysiad – pwysig bod pawb yn teimlo yn rhan o weithgarwch
- Perchnogaeth gymunedol (“anogaeth dim ymyrraeth”)
- Cefnogaeth i ddysgwyr, a chefnogaeth cyfieithu
- Cydweithio gyda chyrrff eraill

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- Cynigir newid geiriad y trydydd pwynt bwled yn y weledigaeth ar gyfer yr adran hon i'w wneud yn glir mai'r nod yw dylanwadau ar weithgareddau sydd yn gweithredu yn uniaith Saesneg, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg a sicrhau eu bod yn cael eu gweld fel gweithgareddau dwyieithog, ac nid uniaith.
- Dylid ystyried y cynigion cydweithio penodol sydd yn yr ymatebion – yn benodol gyda Phrifysgol Bangor/Pontio a'r Parc Cenedlaethol – ac ystyried sut y gallwn drosglwyddo'r syniadau yn weithredoedd neu nodau penodol ar gyfer y cynllun hybu terfynol.
- A ddylid bod yn fwy eglur ynghylch pwy yw'r cyfranwyr yn y maes hwn – y tu hwnt i hunaniaith – a nodi sut rydym yn bwriadu cydweithio gyda chymunedau e.e. gosod nod o ffurfio fforwm gymunedol fydd yn gallu bod yn rhan o osod blaenoriaethau'r fenter ar gyfer y 3 blynedd nesaf (cylch ariannu).

2.10 Maes Blaenoriaeth 5: Ymchwil a Thechnoleg

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- A ddylem ystyried cynnwys pwynt bwled ychwanegol sydd yn dweud rhywbeth tebyg i ...”Hybu datblygiad technolegau newydd ar gyfer y Gymraeg” – h.y. ein bod yn edrych ar gynlluniau neu ymgyrchoedd posib sydd yn edrych ar gyfraniad y Cyngor at ddatblygu a thyfu'r sector meddalwedd yng Ngwynedd.
- A ddylid cynnwys nod ychwanegol sydd yn ymwneud efo defnydd cyrff cyhoeddus (ac ysgolion) o feddalwedd Cymraeg – neu ei gynnwys fel rhan o'r maes Gwaith a Gwasanaethau?

3 Camau nesaf

- 3.5 Bydd y sylwadau a'r syniadau a gynigiwyd yn yr ymatebion yn cael eu hystyried wrth lunio'r Cynllun Hybu terfynol, fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ym mis Medi, ac yna i'r Cyngor Llawn yn yr Hydref.
- 3.6 Bydd gwaith hefyd yn mynd rhagddo gydag adrannau mewnol a chyda phartneriaid allweddol i gytuno ar gamau neu brosiectau fydd yn llunio'r cynllun gweithredu ar gyfer y Cynllun Hybu. Mae trafodaeth eisoes wedi ei chynnal gyda thair adran fewnol – Cefnogaeth Gorfforaethol, Economi a Chymuned ac Addysg, a mwy o gyfarfodydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Gorffennaf.
- 3.7 Bydd y cynllun gweithredu hwnnw yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr gyda'r Cynllun Hybu terfynol yn yr hydref.

4 Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

- 3.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried yr ymatebion a'r grynodedb a chynnig unrhyw sylwadau neu farn ar newidiadau y dylid eu hystyried i'r Cynllun Hybu terfynol.
- 3.2 Mae holiadur wedi ei gynnwys gyda'r Cynllun sydd yn cynnwys y cwestiynau ymgynghori, fel modd o hwyluso'r drafodaeth.
- 3.3 Mae croeso i unrhyw aelod gynnig sylwadau yn unigol hefyd, drwy lenwi'r holiadur a'i anfon at y Swyddog Datblygu ar y cyfeiriad canlynol: cydraddoldebaciaith@gwynedd.llyw.cymru

Eitem 11

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	10 Gorffennaf, 2018
TEITL:	Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019 – sefyllfa Cyngor Gwynedd
AWDUR:	Rhion Glyn Uwch Rheolwr Busnes
PWRPAS YR ADRODDIAD	Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd ar y modd y mae'r Adran a'r Cyngor yn ymateb i ofynion 'Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019 ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

1. Cefndir

- 1.1 Cyhoeddwyd "Mwy na Geiriau", sef y fframwaith strategol 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 ar gyfer sicrhau gwasanaethau Cymraeg ym maes lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Yn ystod 2015 fe gynhaliwyd ymgynghoriad gan y Llywodraeth ar 'Mwy Na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019' a bu i'r Adran gyfrannu at y broses.
- 1.2 Ar y 22 Mawrth, 2016 lanswyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r ddogfen hon yn ddilyniant i'r strategaeth wreiddiol ac yn seiliedig ar y **Cynnig Rhagweithiol** gan fod cydnabod ac yna ymateb i angen ieithyddol yr unigolyn yn elfen annatod o ofal.
- 1.3 Mae 7 Amcan i'r Strategaeth Olynol ar gyfer gweithredu erbyn 2019 :-
 - Amcan 1 - Arweinyddiaeth Leol, Genedlaethol a Pholisi Cenedlaethol
 - Amcan 2 –Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil
 - Amcan 3 –Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu
 - Amcan 4 - Hybu ac Ymgysylltu
 - Amcan 5 - Addysg Broffesiynol
 - Amcan 6 - Y Gymraeg yn y gweithle
 - Amcan 7 – Rheoleiddio ac Arolygu
- 1.4 Mae'r Fframwaith Strategaeth Olynol Mwy na Geiriau ar gael ar y wefan ar y cyfeiriad canlynol :- <https://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf>
ac fe adroddir ar ymateb yr Adran Oedolion a Phlant yn yr atodiad sy'n ynghlwm.

2. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

- 2.1 Croesewir arweiniad a sylwadau'r Pwyllgor ar yr wybodaeth a gyflwynir, a bydd y sylwadau hynny yn ddefnyddiol ar gyfer parhau gyda'r gwaith.

Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019 – sefyllfa Cyngor Gwynedd

Ers 1996 mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n ddwyieithog ymhob agwedd o'i fusnes. Mae ei strategaeth o ran yr iaith Gymraeg wedi ymestyn i brosesau a gofynion recriwtio, casglu data, cytundebau, comisiynu, caffael a hyfforddiant.

Rydym fel Adran wedi ymrwymo i Mwy na Geiriau o'r cychwyn cyntaf ers pan ei gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2012 ac yn croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2016. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwynedd, Morwena Edwards, yn chwarae rôl genedlaethol drwy arwain ar ran cyfarwyddwyr eraill gyda'r agenda pwysig yma ac yn adrodd am gynnydd Cyngor Gwynedd yn flynyddol yn ei hadroddiad.

Mae'r Fframwaith Strategol yn nodi 7 amcan allweddol ar gyfer eu cyflawni ac rydym fel Cyngor ac Adran wedi gwneud cynnydd i ymateb i'r amcanion.

Amcan 1: Arweinyddiaeth Leol, Genedlaethol a Pholisi Cenedlaethol

Mae gan Gyngor Gwynedd Bolisi Iaith gadarn a chlir, sy'n rhoi pwyslais ar ddarparu gwasanaethau sy'n ateb angen y trigolion, yn ogystal ag ateb eu dyletswydd i gydymffurfio a'r Safonau Iaith. Daeth y Polisi a'r Safonau i rym ar y 31 Mawrth, 2016. Gwelir bod egwyddorion Mwy na Geiriau wedi eu plethu gydag egwyddorion a pholisïau ehangach Cyngor Gwynedd, ac mae cydweithio agos rhwng yr adran hon a Swyddog Datblygu Iaith y Gweithle ar elfennau lle mae gorgyffwrdd.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg trwy ei wasanaethau - yn fewnol ac allanol - a chaiff y gwaith hwnnw ei gyflawni drwy Uned Iaith y Cyngor sydd hefyd yn cynnwys y fenter iaith Hunaniaith ar gyfer y Sir. Mae'r Cyngor wrthi yn datblygu strategaeth iaith newydd – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 – fydd yn gosod y weledigaeth ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

Mae gan y Cyngor bolisi recriwtio cadarn sy'n bodoli ers blynyddoedd lawer ac sy'n sicrhau bod staff dwyieithog yn cael eu penodi lle mae eu hangen. Os nad yw gallu ieithyddol yr unigolyn yn cyrraedd gofynion y swydd fe ddarperir hyfforddiant iaith o lefel ddechreuol dysgwr hyd at safon gloywi iaith a defnyddio Cymraeg clir.

Mae ymrwymiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i egwyddorion Mwy na Geiriau yn adlewyrchiad o'r ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir ar draws y Cyngor i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dynodwyd uwch swyddog i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Adran Oedolion a Phlant sef yr Uwch Reolwr Busnes. Yn ogystal, adnabuwyd Rheolwr Cefnogi Gweithlu o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i weithredu fel 'Pencampwr Mwy na Geiriau'.

Er mwyn hybu cydweithio a rhannu ymarferiadau da mae'r Adran yn aelod ac yn cyfrannu i Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru sydd gyda chynrychiolaeth o wasanaeth Iechyd,

Ambiwylans, Gwasanaeth Tân, Colegau a Chynghorau ar draws y gogledd ynghyd â Chyngor Gofal Cymru.

Amcan 2: Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil

Ar hyn o bryd mae tua 88% o staff y gwasanaeth yn gallu'r Gymraeg ac rydym yn hyderus yng ngallu presennol y Cyngor i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol er bod rhai pocedi gwan wedi eu hadnabod. Dilyniir trefn recriwtio'r Cyngor a chesglir yr wybodaeth am iaith staff ar system gyfrifiadurol Adnoddau Dynol y Cyngor. Rydym wedi ymrwymo i gynllunio, datblygu, gweithredu a buddsoddi mewn gweithlu dwyieithog.

Yn ystod 2016-2018 bu i'r Adran Adnoddau Dynol gychwyn ar y broses o asesu swyddi presennol, er mwyn sicrhau bod y dynodiadau iaith (y gofynion iaith a osodwyd arnynt) yn briodol i'r swyddi dan sylw. Datblygwyd fframwaith sgiliau newydd, yn seiliedig ar fframwaith CBAC, a'r bwriad yw y bydd y gwaith yn symud ymlaen i asesu sgiliau'r unigolion sydd yn dal y swyddi, er mwyn sicrhau bod pawb yn cyrraedd y gofynion angenrheidiol. Bydd hyn yn ein galluogi i gynllunio hyfforddiant mwy addas ac adnabod lle mae bylchau mewn sgiliau staff o ran y Cynnig Rhagweithiol.

Rydym yn ymwybodol bod diffygion yn ein darpariaeth e.e. yn ne'r Sir. Rhagwelir y bydd sicrhau gweithlu dwyieithog i'r dyfodol yn y rhan yma o'r Sir yn sialens. Mae'n fwriad i adolygu cynlluniau ar gyfer cydweithio gyda'r darparwyr addysg bellach ar draws y gogledd er mwyn sicrhau bod gweithlu'r dyfodol yn cael eu denu at y cyrsiau priodol a bod gwerth sgiliau dwyieithog yn cael eu huchafu. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd gydag un o'r flaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Hybu'r Gymraeg.

Rydym eisoes yn darparu gwersi Cymraeg a gwersi gloywi Cymraeg sydd wedi ei deilwra at lefel anghenion staff ac mae cyrsiau rhanbarthol ar gael ar gyfer ein partneriaid sy'n rhoi sylw i'r elfen iaith. Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd iaith yn hyfforddiant anwytho i staff gofal ac mewn gweithdy 'Blwyddyn Gyntaf Mewn Ymarfer' i weithwyr cymdeithasol. Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r Brifysgol Bangor i sicrhau bod canran uchel o'r myfyrwyr M.A. mewn gwaith cymdeithasol yn siaradwyr Cymraeg.

O ran yr unigolyn sy'n derbyn gofal, fe gesglir yr wybodaeth am ddewis iaith yn ystod y cyswllt cyntaf gan ei fod yn rôl y gweithiwr cymdeithasol i adnabod anghenion iaith fel rhan o'r asesiad. Drwy'r drefn broceriaeth rydym yn gallu sicrhau fod sgiliau darparwyr yn cyd-fynd gydag anghenion ein defnyddwyr gan gynnwys anghenion ieithyddol.

Rydym yn nawr mewn sefyllfa well i gofnodi'r data ers i'r system gyfrifiadurol newydd WCCIS ddod i rym yn ystod mis Awst, 2017. Mae'r dewis iaith lafar ac ysgrifenedig y defnyddiwr gwasanaeth a'r gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog wedi ei ffrydio i mewn i'r manylion datblygiadol y system newydd (WCCIS) a'r gobaith yw y bydd nid yn unig yn galluogi'r gwasanaeth i weithredu yn ddwyieithog, ond hefyd yn hwyluso'r broses o gyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth i asiantaethau allanol. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n adolygu ein templedi ar y system e.e. 'Beth sy'n bwysig' ar 'Cynllun Gofal' er mwyn sicrhau bod y dewis iaith yn cael sylw a hefyd wrth gynnal adolygiad sicrhau bod y gwasanaeth a gomisiynwyd wedi ymateb i'r anghenion iaith.

I'r dyfodol bydd adroddiadau o'r system WCCIS yn fodd i adnabod gwendidau a diffygion y ddarpariaeth o ran y Cynnig Rhagweithiol a fydd wedyn yn bwydo i mewn i'r broses cynllunio a chomisiynu.

Amcan 3: Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu a Chontractio a Chynllunio'r Gweithlu

Mae'r Cyngor yn ei ddogfennaeth caffael am wasanaethau yn nodi ag amlygu'n glir yr angen i ddarparwyr arddangos sut fyddent yn sicrhau bod gofynion ieithyddol yr unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth yn cael eu cwrdd â'u parchu.

Mae cynlluniau comisiynu presennol yn rhoi pwyslais amlwg ar bwysigrwydd iaith. Oherwydd y deddfwriaethau diweddar mae'r Cyngor wrthi'n adolygu ei gynlluniau comisiynu.

Bydd y gwaith adolygu'r cynlluniau comisiynu yn gyfle i chwilio am gyfleoedd newydd i gryfhau trefniadau a phrosesau i sicrhau bod egwyddorion Mwy na Geiriau yn cael eu hymgorffori.

Mae holl gytundebau presennol y Cyngor gyda darparwyr gofal yn cynnwys cymalau penodol parthed gofynion ieithyddol ar angen i barchu'r unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth. Mae'r cam yma yn cael ei weithredu mewn modd sy'n cydffurfio a chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar gomisiynu gwasanaethau. Wrth adolygu cytundebau Gofal Preswyl yn ddiweddar rydym wedi gosod disgwyliad ar ddarparwyr i baratoi Polisi Iaith i ddangos sut y byddent yn cyflawni egwyddorion Mwy na Geiriau ac i ffurfio cynllun gwella. O ganlyniad fe fyddwn fel Adran yn gallu sicrhau bod egwyddorion Mwy na Geiriau yn ffrydio i bob agwedd o wasanaethau y byddwn yn ei gomisiynu fel Oedolion a Phlant. Hefyd fe fydd yn sail ar gyfer sefydlu trefn monitro positif a chefnogol i egwyddorion Mwy na Geiriau i'r dyfodol. I gefnogi ein darparwyr aethpwyd ati i greu templed Polisi Iaith. Hefyd sefydlwyd a chynhaliwyd cwrs ar gyfer darparwyr a rheolwyr y trydydd sector i egluro sut i gwblhau'r ddogfen ac i godi ymwybyddiaeth am y Cynnig Rhagweithiol.

Yn ystod 2016 cynhaliwyd gwaith ymgysylltu i fwydo i Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd. Casglwyd gwybodaeth ddefnyddiol am y boblogaeth o ran demograffeg twf, lleoliad, disgwyliad oes ac oes iach. Hefyd casglwyd gwybodaeth am broffil yr iaith Gymraeg. Ar ddiwedd y broses fe ddaeth nifer o ffeithiau diddorol i'r amlwg i gynorthwyo'r Adran i gynllunio gwasanaethau gofal i'r dyfodol. Mae'r canlyniadau wedi mynd drwy drefn bwyllgorau'r Cyngor.

Fe fydd yn her i annog rhai darparwyr di-gymraeg i hybu dwyieithrwydd a diwylliant Gymraeg o fewn eu sefydliadau. Mae angen cynyddu diddordeb darparwyr ac yr her ymarferol yw'r costau allasai fod ynghlwm ag unrhyw ofynion e.e. rhyddhau staff gofal i fynychu cyrsiau dysgu Cymraeg. Fe fydd angen cydweithio gyda'r Darparwyr allanol i adnabod ffyrdd mwy creadigol i oresgyn yr anawsterau. Bydd angen gwneud iddynt sylweddoli'r bwysigrwydd bod iaith yn rhan o'r gofal a hefyd y flaenoriaeth y mae'r Cyngor yn ei roi o safbwynt darparu gwasanaethau yn dewis iaith yr unigolyn.

Amcan 4: Hybu ac Ymgysylltu

Mae Cynllun Cyfathrebu yn cael ei ddatblygu gan yr Uned Iaith a'r Uned Gyfathrebu gorfforaethol, fydd yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu trosglwyddo i holl staff y Cyngor am bwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg a'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael iddynt i wella eu sgiliau a'u hyder.

Mae staff rheng flaen y Cyngor a'r Adran yn gwisgo logo iaith gwaith (os yn briodol) ac fe welir posteri ymhob derbynfa ac yn ein cartrefi preswyl. Wrth ymweld â'r timau cafwyd cyfle i godi ymwybyddiaeth am Mwy na Geiriau a chael trafodaeth ymysg staff. Atgoffir staff am egwyddorion Mwy na Geiriau drwy eitemau yn 'Newyddlen' yr Adran.

Mae cyhoeddusrwydd wedi ei roi i Mwy na Geiriau a'r 'Cynnig Rhagweithiol' mewn cyfarfodydd, drwy fwletin ac e-byst i bartneriaid gofal annibynnol a'r trydydd sector. Dosbarthwyd mewn cyfarfodydd y 'logo gwaith' a hefyd y 'Llyfr Piced i Fyfyrrwy'.

Mae'r Uned Iaith a'r Tîm Dysgu a Datblygu hefyd bellach yn cynnal sesiwn fer fel rhan o bob hyfforddiant anwytho ar gyfer staff gofal newydd, er mwyn tynnu sylw at gyfrifoldebau staff o ran cynnig gwasanaeth dwyieithog a chodi ymwybyddiaeth o egwyddor y cynnig rhagweithiol a pharchu anghenion ieithyddol y defnyddiwr gwasanaeth.

Trefnwyd 2 gwrs hanner diwrnod ar gyfer Rheolwyr a Pherchnogion sefydliadau Gofal er mwyn codi ymwybyddiaeth o 'Mwy na Geiriau' a rhoi arweiniad ar sut i greu hunanasesiad o'u busnes, yn ogystal hefyd a chreu Polisi Iaith a chynllun gwella. Yn anffodus roedd yr ymateb yn siomedig iawn. Er hynny mae'n fwriad i gydweithio gyda Chyngor Gofal Cymru ar y mater yma ac i hybu'r cwrs i ddarparwyr a'r trydydd sector o fewn Gwynedd.

Rhoddir pob cefnogaeth i ymgyrchoedd Mwy na Geiriau fel y Diwrnod Miwsig drwy ddefnyddio dulliau cyhoeddusrwydd y Cyngor a'r Adran. Fel Cyngor fe anfonwyd 3 cais i'r Digwyddiad Dathlu Mwy na Geiriau 2017 yn ddiweddar ac fe anogwyd y Darparwyr annibynnol a'r trydydd sector ynghyd a'r Cynghorwyr i enwebu a chymryd rhan.

Mae'r Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru yn ffordd i rannu syniadau ac yn gyfle gwych i gydweithio gydag Iechyd, cynghorau a mudiadau eraill i adnabod cyfleon ac ymarfer da. Mae gennym ddau swyddog yn mynychu ar ran yr Adran. Ym mis Hydref 2017 cafodd gwaith y Fforwm ei gydnabod mewn digwyddiad cenedlaethol Mwy na Geiriau yng Nghaerdydd drwy ennill Cydnabyddiaeth Arbennig yn y categori Arweinyddiaeth

Dyma enghreifftiau o gydweithio diweddar -

Er mwyn hybu agenda'r Fforwm bu cynrychiolydd o Wynedd yn cefnogi Cyngor Gofal mewn cyfweiliadau i benodi Swyddog Ymgysylltu a Datblygu Cymraeg Gwaith. Pwrpas y swydd yw hyrwyddo pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg mewn Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac annog cyfranogiad ar y Cynllun Cymraeg Gwaith. Gobeithio y bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn cael budd o'r penodiad hwn.

Yn ystod y mis hwn mae'n fwriad gan y Fforwm i gael stondin Mwy na Geiriau yn Fforwm Blyneddol y Rheolwyr Gofal Cofrestredig Gogledd Cymru yn yr Optic, Llanelwy. Bydd hwn eto yn gyfle gwych i gynnal sgysiau gyda'r rheolwyr gofal cofrestredig gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth am Mwy na Geiriau.

Amcan 5: Addysg Broffesiynol

Mae ein huned Datblygu Gweithlu yn cydweithio gyda chyrff addysg a chyrff proffesiynol ar ran yr Adran a'r Cyngor i drafod materion cwricwlwm a rhaglenni hyfforddi staff gofal. Maent yn parhau i gydweithio gyda'r Brifysgol Bangor i sicrhau bod canran uchel o'r myfyrwyr M.A. mewn gwaith cymdeithasol yn siaradwyr Cymraeg ac yn darparu lleoliadau i fyfyrwyr o fewn y timau.

Credir fod yr hyn sydd wedi ei nodi fel diweddariad i amcanion 1 i 5 yn crynhoi hefyd y sefyllfa o ran amcanion 6 : Y Gymraeg yn y gweithle a 7: Rheoleiddio ac Arolygu.

Amcan 6: Y Gymraeg yn y gweithle.

Mae Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg wedi ei benodi yn ystod Haf 2017, a bydd y swydd hon nid yn unig yn edrych i gefnogi dysgwyr pur, ond hefyd yn rhoi rhaglen hyfforddiant ar waith fydd yn gwella sgiliau a hyder siaradwyr Cymraeg. Mae'r swyddog yn gweithio yn agos gyda'r Uned Iaith a chyda swyddogion datblygu gweithlu a hyfforddiant eraill y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a chefnogaeth yn cael ei dargedu lle mae mwyaf ei angen.

Camau nesaf

Mae'r Adran yn ymwybodol am nifer o feysydd sydd angen sylw pellach o ran symud ymlaen agenda Mwy na Geiriau ym maes gofal ond am y flwyddyn nesaf y bwriad yw blaenoriaethu i ganolbwyntio ar y canlynol :-

1. Cynnig cefnogaeth i ddarparwyr gofal preifat Gwynedd i fabwysiadau'r templed Polisi Iaith gan yr Adran er mwyn iddynt gynnal hunan asesiad o'u gallu i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Wedyn byddwn yn awyddus i gydweithio gyda'r Darparwyr i lunio cynllun gwella e.e. adnabod gofynion hyfforddiant, rhoi cefnogaeth i hybu siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, cryfhau diwylliant Cymraeg o fewn eu busnes a.y.b.. Mae Cyngorau eraill yn y gogledd eisoes wedi dangos diddordeb yn ein bwriad ac yn awyddus i gael trafodaeth bellach yn y Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru.
2. Gwella ein system monitro gweithrediad y gofynion iaith yn unol â'n cytundeb gyda phob darparwr drwy gydweithio gyda Chyngor Gofal Cymdeithasol ac Arolygaeth Gofal Cymru.
3. Cyd weithio gyda phartneriaid eraill e.e. colegau/cyngorau i wella ein trefn recriwtio i ddenu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'r maes Gofal.